



## BOD YN AELOD CORFFORAETHOL



Gwobr Aur  
Gold Award  
2023



Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn fawr ei pharch ledled y byd ac yn hoff gan y rhai sy'n ymweld. Caiff ein hamcanion a'n cyflawniadau eu hysbrydoli gan ein cennad elusennol, sy'n ymroi i ymchwil a chadwraeth bioamrywiaeth, i gynaliadwyedd, dysgu gydol oes a mwynhad ymwelwyr. I wneud hyn mae arnom angen mwy o bobl sydd o blaid natur a mwy o le i fywyd gwylt ffynnu.

**Fe wyddom beth y mae angen ei wneud ac mae arnom angen eich cefnogaeth chi i gyflawni hynny.**

### CYNNAL YR AMGYLCHEDD, DYSGU A CHADWRAETH


Os yw eich busnes yn dymuno helpu bywyd gwylt, buddsoddi mewn addysg a'r gymuned leol gan gyfrannu at amgylchedd iachach, byddwch yn elwa o berthynas â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Mae bod yn aelod corfforaethol o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn buddsoddi nid yn unig mewn bywyd gwylt a manau gwylt, ond yn eich busnes hefyd. Gall roi hwb i'ch cynnyrch, helpu lleihau'r pwysedd ar eich cydweithwyr, dangos i ran-ddeiliaid eich ymrwymiad i'r amgylchedd a chysylltu â chynulleidfaedd a chwsmeriaid newydd.

Byddwch yn dod yn rhan o grŵp o fusnesau o'r un feddylfryd â chi sy'n helpu diogelu planhigion ac adfer manau wyllt. Byddwch hefyd yn cael amrywiol fuddiannau o ddefnyddio ein logo i gyfleoedd hyrwyddo yn ein system gyfathrebu eang i gyfleoedd gwirfoddoli i'ch staff.

**Mae Aelodaeth Gorfforaethol yn gam cyntaf gwych i ddatblygu perthynas faith gyda Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Drwy ymuno â ni, bydd eich busnes yn gwneud ei ran yn ein gweledigaeth am fyd sy'n rhoi gwerth ar foamrywiaeth ac yn diogelu planhigion a'r blaned.**

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru  
Neuadd Middleton  
Llanarthne  
Sir Gaerfyrddin SA32 8HN  
[garddfotaneg.cymru](http://garddfotaneg.cymru)



## BYDD POB AELOD CORFFORAETHOL YN CAEL:

- Disgownt o 10% ar fynediad ac aelodaeth i staff
- Tocynnau cyfarch i gleientiaid
- Disgownt wrth hurio cyfleusterau'r Ardd ar gyfer digwyddiadau corfforaethol
- Cyfle i gael erthygl yn YR ARDD, ein cylchgrawn i Aelodau, yn ogystal â phrisiau cystadleuol i hysbysebu eich cwmni ymhlith ein Haelodau a'n hymwelwyr.
- Disgownt ar gyrsiau a gynhelir gan yr Ardd Fotaneg, megis cadw gwenyn, garddwriaeth, celf a rhagor. Cyfleoedd i wirfoddoli a diwrnodau adeiladu tîm corfforaethol drwy drefnu.
- Enw'r cwmni'n cael ei restru ar ein gwefan, a doler i'ch gwefan chi.
- Nodyn yn ein Hadroddiad Effaith blynyddol.
- Gwasanaeth ysgrifennu ewyllys am ddim i staff.
- Cael y diweddaraf yn rheolaidd am newyddion a digwyddiadau.
- Gwahoddiad i ddiwrnod i aelodau corfforaethol.
- Disgownt ar wasanaethau proffesiynol gan gynnwys cyngor ar reoli tir ac adolygiadau bioamrywiaeth.

### Dyma yw'r tair lefel aelodaeth:

(ffioedd am flwyddyn heb gynnwys TAW)

- |   |        |
|---|--------|
| • Busnes bach<br>(Llai na 20 o weithwyr)  | £ 750  |
| • Busnes Canolig<br>(20-100 o weithwyr)   | £1,500 |
| • Busnesau Mawr<br>(100-200 o weithwyr)   | £3,000 |
| • Busnes dros 200<br>Cysylltwch â ni yn <a href="mailto:account@gardenofwales.org.uk">account@gardenofwales.org.uk</a><br>neu ffoniwch 01558 667149 |        |



## CYFLEOEDD PARTNERIAETH I FUSNESAU

Bydd bod yn bartneriaeth gyda ni yn eich helpu:

- i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy gyfleoedd marchnata a nawdd yn ôl achos.
- i sefyll allan fel arweinydd yn eich diwydiant i ddiogelu tirwedd Cymru.
- i alinio ag elusen amgylcheddol gredadwy ac atyniad eiconig i ymwelwyr.
- i ymwneud â phobl ledled y wlad ar faterion amgylcheddol pwysig.
- i gynyddu pryniant a theyrngarwch cwsmeriaid drwy ddangos eich gwerthoedd cadarnhaol.
- i ddarparu ffyrdd i weithwyr wella'u hiechyd a'u llesiant drwy wirfoddoli ac aelodaeth o'r Ardd.



Gallwch wneud gwahaniaeth nawr i'r amgylchedd, i'ch gweithwyr, i'ch cwsmeriaid ac i'ch rhan-ddeiliaid. Gyda'n gilydd gallwn adeiladu partneriaeth gref ac ystyrlon sy'n llesol i'ch busnes a'ch achos. Cysylltwch â'n tîm yn [account@gardenofwales.org.uk](mailto:account@gardenofwales.org.uk) Edrychwn ymlaen at gael siarad â chi'n fuan.

*\*Mae'r ffioedd aelodaeth yn symiau isafswm, sy'n golygu y gallwch dewis i gyfrannu mwy os am gynyddu lefel eich cefnogaeth. Ystyrir unrhyw swm a roddir uwchben yn wirfoddol, ac felly ddim yn ddarostyngedig i TAW.*